# y dinesydd

Mehefin 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 219


# AR DAF YR IAITH A DYFODD

Mae gwaith ar y gweill i ddathlu, ar 5 Medi 1999, sefydlu'r Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd yn Sloper Road, Grangetown hanner can mlynedd yn ôl.

Bydd llu o ddigwyddiadau dathlu - cinio a dawns, cyfarfod cyhoeddus, cyhoeddi llyfryn y dathlu, dadorchuddio cofeb, arddangosfa, rhaglen deledu, ac yn y blaen.

Ac wrth gwrs, mae angen cysylltu â'r 600 o ddisgyblion cyntaf. Dyma luniau cynnar o'r ysgol, gyda chaniatâd caredig Gwenda Francis.



*Ysgol Gymraeg Caerdydd, Pasg 1950*



*Côr yr ysgol yn ennill cwpan yn Eisteddfod yr Urdd, Y Bala*

Rhifau ffôn trefnwyr y dathliadau:

*Llywydd:*
Alwyn Evans, Bangor 01248 602518
*Is-Lywydd:*
Iolo Walters, Caerdydd 612947
*Ysgrifenydd:*
Ethni Jones, 01446 760383
*Is-Ysgrifenydd:*
Gwenda Francis, Caerdydd 626774
*Trysorydd:*
Ann Williams, 26 Gold Crest Drive, Cyncoed, Caerdydd
*Cysylltydd:*
Iwan Guy, 01446 773425
*Cyhoeddusrwydd:*
Siân Thomas, Caerdydd 693909

**ANFONER DEUNYDD AR GYFER RHIFYN GORFFENNAF/AWST ERBYN 15 MEHEFIN**

Yn atodiad i rifyn Gorffennaf/Awst gobeithir cyhoeddi cyfeiriadur i weithgarwch Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau a fydd yn cynnwys manylion am gymdeithasau a sefydliadau. Os ydych am gynnwys manylion am eich cymdeithas chi anfonwch rhag blaen at Julie Jones, 28 St. Francis Road, Yr Eglwys Newydd (01222 620618).

# Y Dinesydd

**Mehefin 1996, Rhif 219.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst at un o'r canlynol erbyn 15 Mehefin:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 481280 est. 236): Gweithgareddau Dysgwyr.
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pentwyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Calendr y Dinesydd

**15 Mehefin**
Helfa Drysor i deuluoedd. Dechrau o Ganolfan yr Urdd am 2pm. Gorffen ym Mharc Cosmeston gyda barbaciw.

**29 Mehefin**
Gŵyl Machen Isaf: Darlith gan yr Athro Dafydd Johnston ar y testun 'Trosglwyddiad Llafar yr Oesoedd Canol', yn Eglwys Iago Fawr, Rhydri, am 5 p.m. Tâl mynediad: £3.


**1 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper Pentymor. Siaradwr: Havard Gregory. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-620487).

**15-18 Gorffennaf**
Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru, yn adeiladau Athrofa Prifysgol Cymru, Colchester Avenue, Caerdydd

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:*
*E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 151** **Mehefin 1996**



**AR DRAWS**

8. Dogn i wŷr sy'n cywilyddio wedi cael trōedigaeth. (2,6)
9. Mae hyd yn oed hwn yn methu, yn ddiarhebol, weithiau. (6)
10. Un sy'n agor bedd? (6)
11. Hen fwrdeistref a lyncwyd bellach gan Bort Talbot. (8)
12. Yn y dydd hwn, daw gofid a lludded i'ch rhan. (4)
13. Coliars. (6,1'1,2)
15. Mewn brys i gyrraedd yr anafus. (4)
16. Dygodd ei ddull ysgafala ei ffrwyth ei hun. (4)
18. Ar glawr. (2,3,1,4)
19. Cynheilydd yr arch. (4)
20. Un tafodrydd yn rhoi rhybudd am fod yr Unol Daleithiau yn troi yn ôl. (8)
22. Disgyn yn anfwriadol. (6)
23. Nid ei enw bedydd a gafwyd o'r Llyswen. (6)
24. Un sy'n canlyn Euripedes (o hirbell efallai). (8)

**I LAWR**

1. Yn barod i gymryd pethau fel y maent. (2,6,2,2,3)
2. Democratiaeth ar ei gorau. (15)
3. Digon symol. (6,4)
4. Bagad ohonynt gan fugail. (7)
5. Gofyn yn daer am gael troi i drigfan y teulu. (4)
6. Mathew yn rhybuddio rhag rhoi pethau gwerthfawr i rai anystyriol o'u gwerth. (6,1,5,3)
7. Ffordd y fam brysur o foddio'r un sydd ar lwgu. (6,1,4,4)
14. Ymhell o ymadael â'r fuchedd hon. (2,3,2,3)
17. I'w osod ar orweddfan yr anifail. (7)
21. Gallu arbennig a roddir. (4)

**Cystadleuaeth Rhif 150**
Daeth 11 ymgais i law. Roedd gwall mân mewn tri ohonynt a'r lleill i gyd yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r pentwr oedd eiddo Miss Meinwen Ruddock, 23 Albert Walk, Treganna, Caerdydd, ac iddi hi yr aiff y tocyn llyfrau.
Y saith arall a lwyddodd yn llwyr oedd: Margaret Jones, Cyncoed; Tecwyn Vaughan Jones, Yr Eglwys Newydd; Marian Lake, Llanfihangel-ar-Elái; Meurig Jones, Treganna; Beti Wyn Thomas, Twickenham; Michael Francis, Casnewydd a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Rhif 151**
Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, Cyncoed, erbyn 18 Mehefin os gwelwch yn dda.

### DATRYSIAD CROESAIR MIS MAI






## CÔR CAERDYDD YN BEDAIR OED

Erbyn i chi ddarllen hyn, bydd Côr Caerdydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn bedair oed. Bu'n perfformio Requiem Mozart yn Eglwys Sant Augustine, Penarth yn ddiweddar, ac i ddathlu'r pen-blwydd yn benodol mae wedi cyhoeddi casét a chryno ddisg o ddarnau ysgafn a chlasurol.

Sefydlwyd y côr ar Ddydd Ffŵl Ebrill 1992 i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, ac ers hynny mae wedi perfformio'n eang yn y wlad honno a Chanada.

Fel pob côr, mae angen lleisiau newydd o hyd. Felly, os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â'r arweinydd, Gwawr Owen (Caerdydd 691924) neu'r Cadeirydd, Peredur Evans (Caerdydd 621266).

**LLONGYFARCHIADAU** Yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ar 3 Mai ganed mab arall, Aled Glyn, i Wyn a Nora Davies, Coryton Rise, brawd i Hywel Glyn ac ŵyr arall i Terwyn a Marian, Glyn ac Amelia.

### PENARTH A'R CYLCH

Mae Mrs Non Davies a Mr Iwan Davies, y Dirprwy Brifathro, wedi ymddeol ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yn Ysgol Gymraeg Penarth. Dymuniadau da i'r ddau.

Mae Mrs Owena Hopwood a Mr Anthony Parker wedi cael triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r ddau.

Cafwyd diwedd cofiadwy iawn i dymor Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys, pan fu Elfed Thomas yn adrodd hanes y canwr Americanaidd, Thomas Llyfnwy Thomas. Etholwyd y canlynol yn swyddogion y Gymdeithas am 1996-97:
Llywydd - Islwyn Phillips; Cadeirydd - Iwan Davies; Is-Gadeirydd - Mrs Elinor Elias Jones; Ysgrifennydd - Moira Owen; Trysorydd - Alun Roberts; Aelodau'r Pwyllgor - Helen Daniel, Mary Lewis, Rhiannon Jones, Gwyneth Waite, Jaynie Jones, Arnold Lloyd a Gerwyn Williams.

**DYMUNIADAU DA** Mae ei gyfeillion niferus yn anfon eu cofion at Lynn Jones, Llandaf, sy'n ddi-hwyl ar hyn o bryd. Mae Lynn wedi gweithio'n galed iawn dros *Y Dinesydd* yn y cefndir ers nifer o flynyddoedd, a dymunwn wellhad buan iddo.

**LLONGYFARCHIADAU** i'r Dr Peter Wynn Thomas ar gael ei ddyrchafu'n Uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd, ac ar gael ei benodi'n gyd-olygydd Adran Iaith a Llên *Studia Celtica: Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd.*

## CWMNI GWEN, PONTYPRIDD

Perfformiad cyntaf y cwmni drama hwn i bobl Pontypridd a'r cylch oedd 'Chicago' y llynedd, a bu'n llwyddiant eithriadol ym mhob ffordd. Eleni yn Theatr y Miwni, Pontypridd ar Orffennaf 16 i 18, bydd y cwmni'n perfformio 'Draw Dros y Don' gan Gareth F Williams. Hanes criw o bobl ifainc yn mynd i Sbaen ar wyliau yw'r ddrama gerdd, ac mae pethau'n troi allan dipyn yn wahanol i'r disgwyl. Geraint Cynan sy'n gyfrifol am y gerddoriaeth, ac mae'n siŵr o ennyn hwyl dawnsio ynoch. Bydd y perfformiadau'n dechrau am 7.30. Pris y tocynnau fydd £5 a £3.50 a gallwch eu cael drwy ffonio'r swyddfa docynnau ar 01443 485934.

**LLADIN AR YR AMSERLEN** Mae sôn bod Lladin i gael ei dysgu fel pwnc eto yn Ysgol Uwch Glantaf, mae'n siŵr oherwydd dylanwad y prifathro newydd, Huw Thomas, a fu'n gyfrifol am ddarparu'r pwnc yn ei ysgol flaenorol, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni - un o'r ychydig ysgolion yng Nghymru sy'n dal i ddarparu'r pwnc ar yr amserlen.

Mae'n debyg fod y pwnc yn dechrau dod yn boblogaidd eto yng Nghanada, Awstralia a Seland Newydd, ac nid yw wedi dioddef i'r un graddau ar y Cyfandir ychwaith.

Cyhoeddwyd gwaith yn ddiweddar gan Ceri Davies, sy'n Uwch Ddarlithydd yn y clasuron ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe, i'n hatgoffa o'r cysylltiad arbennig a fu erioed rhwng yr iaith Ladin a Chymru - *Welsh Literature and the Classical Tradition.* Cofir am Ceri Davies ar staff Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd, ac mae ei dad, y Parch. H.R. Davies, yn byw o hyd yn yr Eglwys Newydd. Mae'n siŵr y bydd yn falch iawn clywed am y datblygiad sydd ar y gweill.

**BYDD Y CYNLLUNIAU CHWARAE** i blant a drefnir gan Rieni Dros Addysg Gymraeg, 'Hwyl Haf', yn cael eu cynnal eto eleni mewn sawl canolfan yng nghylch Caerdydd yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst - yn Ysgolion Bro Eirwg a Glantaf (29 Gorffennaf-16 Awst); yn Ysgol Sant Baruc, Y Barri, ac Ysgol Uwchradd Glan Elái (22 Gorffennaf-9 Awst); ac yn Neuadd y Plwyf, Dinas Powys (12-29 Awst). Gellir cael rhagor o wybodaeth oddi wrth brifathrawon yr ysgolion Cymraeg.

**FFURFLEN CYFRANNU A THANYSGRIFIO**

a. Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd. ☐

b. Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd.* ☐

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

........................................... Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: .................................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit,
2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## ADENNILL ETIFEDDIAETH

gan Gareth Kiff, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

'Mewn undod mae nerth.' Efallai mai hwn yw'r dywediad gorau yn yr iaith Gymraeg, yr un mwyaf agos at y gwir. Gwlad fach yw Cymru ac mae ei dinasyddion wedi gorfod brwydro'n heddychlon dros y blynyddoedd i ennill hawliau ieithyddol iddynt eu hunain. Yn sicr, y mae wedi bod yn llwybr lletchwith i'w ddilyn, ond heb os y mae cymaint wedi ei gyflawni oherwydd ymroddiad pobl gyffredin ein gwlad. Ond wrth gwrs mae cymaint o waith gennym i'w wneud o hyd.

Dyna'r rheswm yr ymunais i â Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cefais fy magu mewn teulu di-Gymraeg yng Nghaerdydd. Fel sawl un o'r ardal yr oedd fy nheulu wedi colli'r Gymraeg genhedlaeth neu ddwy cyn i mi gael fy ngeni. Fel sawl un arall yr oeddwn yn falch o fod yn Gymro, ond yn anffodus, heb y gallu i siarad fy iaith fy hun. Felly, ar ôl graddio yn y Gyfraith a threulio blwyddyn yng Ngholeg y Gyfraith, Caer, des i yn ôl i Gaerdydd a dechrau dysgu Cymraeg gyda'r Gymdeithas yn Nhŷ'r Cymry, Y Rhath.



Gareth Kiff, Caerdydd CYIC

Nid yw fy mywyd wedi bod yr un peth ers dechrau ar y Cwrs Wlpan bum mlynedd a hanner yn ôl! Dysgais i beth oedd hi i ymfalchïo, mewn ffordd adeiladol, yn fy Nghymreictod a sut i frwydro dros hawliau sifil mewn ffordd heddychlon. Dysgais lawer mwy nag iaith; fe wnes i adennill fy etifeddiaeth ac am y tro cyntaf yr oeddwn yn teimlo fel dinesydd go iawn yn fy ngwlad fy hun. Dyna pam es i i Goleg Cyncoed i wneud gradd Baglor Addysg yn y Gymraeg, er mwyn i mi gyfrannu at y broses o sicrhau na fydd cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o bobl yng Nghymru yn gorfod talu am ddysgu rhywbeth a ddylai fod yn enedigaeth-fraint iddynt.

Teimlaf yn freintiedig fod gen i'r cyfle i gadeirio mudiad sydd wedi gwneud cymaint i ennill statws i'r Gymraeg. Teimlaf yn falch hefyd mai finnau yw'r brodor cyntaf o Gaerdydd i gael y fraint honno. Mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn berthnasol i bawb yng Nghymru os ydym am ei gweld yn ffynnu yn ystod y ganrif nesaf. Nid oes ots am eich crefydd, lliw, cefndir neu unrhyw beth arall, mae'r Gymraeg yn eiddo i ni i gyd. Yn sicr, bydd y flwyddyn hon yn un brysur iawn, gallaf addo hynny, gyda nifer o ymgyrchoedd amlwg. Fel y dywedwyd yn gynharach 'Mewn undod mae nerth'. Mae eisiau nerth, ffydd a hyder i gyflawni'r holl waith sydd o'n blaenau ni ac mae gan bawb rôl i'w chwarae i sicrhau dyfodol i'n diwylliant unigryw.




**ROEDD YN DDA** gweld llyfrau gan ddau o frodorion Caerdydd, sef R. S. Thomas a Gwyneth Lewis, yn cyrraedd rhestr fer cystadleuaeth 'Llyfr y Flwyddyn' Cyngor y Celfyddydau eleni. Hefyd, roedd yn dda gweld un o drigolion y ddinas, Manon Rhys, ymhlith y beirniaid.

### DIWYLLIANT GWERIN YN MYND YN RHAN-AMSER!

Yn dilyn llwyddiant y cwrs MA mewn Astudiaethau Gwerin a ddysgir yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd penderfynwyd cynnig y cwrs yn rhan amser o fis Medi nesaf ymlaen gan agor y drws i'r darpar fyfyrwyr hynny sydd â diddordeb yn y maes hwn ond oherwydd eu hamgylchiadau yn methu dilyn cwrs amser-llawn.

Cynigiwyd Astudiaethau Gwerin fel maes ar gyfer gradd MA am y tro cyntaf gan Brifysgol Cymru yn 1992 a hynny ar y cyd gydag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, un o brif amgueddfeydd awyr-agored Ewrop os nad y byd ac sydd â thraddodiad anrhydeddus o waith ymchwil yn y maes hwn.

Diben y cwrs yw meithrin hyfforddiant o'r safon uchaf yn nisgyblaeth aml-linynnol Astudiaethau Gwerin drwy ddysgu ac ymchwil. Mae'n cwmpasu ein traddodiad llafar - ein llenyddiaeth lafar neu gelf lafar fel y'i gelwir yn ogystal ag agweddau eraill ar lên gwerin megis canu, arferion, bwydydd, coelion ac yn y blaen. Astudir amryfal agweddau ar ddiwylliant materol yn y gymuned Gymreig megis arferion amaethyddol, crefftau, adeiladau a'r cartref. Dysgir sgiliau casglu data, ei ddadansoddi a'i ddehongli. Cyflwynir y gwahanol agweddau trwy waith cwrs a bydd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu traethawd ar eu dewis bwnc sy'n berthnasol i'r maes.

Erbyn heddiw, ac ar ôl bron i ddeugain mlynedd o gasglu gwybodaeth, a hynny yn bennaf drwy recordiadau sain, mae'r Amgueddfa Werin yn drysor o wybodaeth am ddiwylliant gwerin Cymru. Mae'r Archif Sain ymysg y goreuon yn y gwledydd Celtaidd a cheir yno archif a llyfrgell arbenigol. Yn hynny o beth mae'n syndod fod diwylliant gwerin wedi gorfod disgwyl mor hir cyn cael ei gydnabod fel pwnc dilys o fewn ein prifysgol . . .

Am fwy o wybodaeth cysyllter â:
Tecwyn Vaughan Jones, Adran y Gymraeg,
Prifysgol Cymru Caerdydd, Ffôn : 874843.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## CYFARFODYDD BLYNYDDOL UNDEB BEDYDDWYR CYMRU
### 14 - 18 GORFFENNAF 1996

Estynnodd Eglwys y Tabernacl Caerdydd wahoddiad i Undeb y Bedyddwyr gynnal ei Chyfarfodydd Blynyddol yn y Brifddinas eleni, a hynny er anrhydedd i'r darpar lywydd Mr Illtyd Lloyd. Thema'r Undeb fydd 'Adeiladu'r Eglwys' ac fe gynhelir y cyfarfodydd yn neuadd UWIC (Colchester Avenue) ac yn y Tabernacl. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y cyfarfodydd cyhoeddus hyn:

Dydd Sul, 14 Gorffennaf (Tabernacl)

| | |
|---|---|
| 10.30 a.m. | Oedfa Gymun. Pregethwr: Parchg. Eric Williams (Cwmafan) |
| 6.00 p.m. | Oedfa o Fawl a Thystiolaeth yr Ifainc |

Dydd Llun, 15 Gorffennaf (Colchester Avenue)

| | |
|---|---|
| 3.45 p.m. | Darlith Flynyddol y Gymdeithas Hanes. Siaradwr: Mr E. Wyn James (Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd) |
| 7.00 p.m. | Cyflwyniad Cerdd yr Ifanc: 'Bricsen ar Fricsen' |

Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf (Colchester Avenue)

| | |
|---|---|
| 4.00 p.m. | Oedfa Genhadol. Siaradwr: Mr. Andrew Stockbridge (B.M.S.) |
| 6.30 p.m. | Seiat Holi: 'Cenhadu Cyfoes' |

Dydd Mercher, 17 Gorffennaf (Colchester Avenue)

| | |
|---|---|
| 10.30 a.m. | Anerchiad gan y Parchg. Douglas Hicheon: 'Plannu Hadau' |
| 4.00 p.m. | Cymdeithas Heddwch. Siaradwr: Parchg. John Rice Rowlands |
| 7.00 p.m. | Oedfa'r Llywydd, Mr Illtyd Lloyd, yn y Tabernacl |

Dydd Iau, 18 Gorffennaf (Tabernacl)

| | |
|---|---|
| 10.30 a.m. | Oedfa'r Weinidogaeth. Pregethwr: Parchg. T.J. Russell Jones |
| 2.00 p.m. | Oedfa Bregethu. Pregethwr: Parchg. Alwyn Daniel (Trefdraeth) |

## TABERNACL YR EGLWYS NEWYDD

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Tabernacl ar y Sul olaf yn Ebrill. Roedd oedfa Gymraeg yn y prynhawn gyda phlant a phobl ifainc yr Ysgol Sul Gymraeg yn cymryd rhan. Anerchwyd gan y Parchg. Tudor Lloyd, Abertawe, ei hun yn un o blant y Tabernacl flynyddoedd yn ôl ac yntau wedi ymddeol erbyn hyn.

## TAB AR DAITH

Yn dilyn llwyddiant ymweliad rhai o deuluoedd Ysgol Sul y Tabernacl â Gwersyll yr Urdd, Llangrannog y llynedd fe benderfynodd rhagor o deuluoedd ymuno â'r daith eleni dros benwythnos Gŵyl y Banc ddechrau mis Mai. Mae'n amheus a oes canolfan well ar gyfer gwyliau i'r teulu yng Nghymru heddiw. Fe'n bendithiwyd â thywydd braf eleni eto ac aeth pawb ati'n egnïol iawn i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i sgïo, sglefrolio, nofio, merlota, gwibgartio, chwarae pêl-droed a chriced a gyrru'r beiciau modur. Da gweld i'r gweinidog, y Parchg. Denzil John, lwyddo i esgyn i'r pulpud ar y Sul yn dilyn anaf tra'n ceisio efelychu Denis Lillee ar draeth Llangrannog y prynhawn Sadwrn blaenorol!!

O wneud rhywbeth am yr ail flwyddyn yn olynol mae traddodiad wedi ei sefydlu bellach a dyletswydd olaf y trefnydd oedd ildio i alwadau'r teuluoedd i logi'r "en-suites" ar gyfer yr un penwythnos y flwyddyn nesaf. Beth am i'ch ysgol Sul chithau wneud yr un peth?

*Hywel Jones*

## THEATR CRWYS YN Y 'STEDDFOD




Mae Cymdeithas Ddrama'r Crwys yn brysur iawn y dyddiau yma yn paratoi tri chynhyrchiad ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir eleni yn Llandeilo. Ie, tri chynhyrchiad ddywedais i, a'r tri yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd, tipyn o gawlad i Gymdeithas Capel dybiwn i! Felly, er mwyn i chi gael trefnu eich wythnos yn yr Eisteddfod roeddwn yn meddwl y byddai'n well i mi ddweud wrthych pryd a ble y byddwn yn perfformio, er mwyn i chi gael ei roi yn eich dyddiaduron mewn da bryd.

Wedi inni gael llwyddiant yn ddiweddar yn y gystadleuaeth actio drama un act mae'r Gymdeithas wedi derbyn gwahoddiad eleni i roi dau berfformiad yn Theatr y Maes, ar brynhawniau Llun a Mawrth. Drama un act *Ar Amrantiad* fydd hon, drama a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth 'sgrifennu drama un act dan nawdd Cymdeithas Ddrama Cymru y llynedd. *In the Blinking of an Eye* yw enw'r ddrama yn Saesneg, a'r awdur yw Jeremy Hylton Davies, wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg gan Annes Gruffydd.

Nos Fercher, yn Neuadd Brynaman, byddwn yn cystadlu yng nghystadleuaeth y ddrama hir. Cyfieithiad sydd gennym eleni eto, ond comedi go iawn y tro yma, *Trwbwl Dwbwl*, cyfieithiad Mallt Anderson a Beni Harries o *Out of Focus*, gan Peter Gordon.

Mae nos Iau yn rhydd i chi, ond i orffen yr wythnos, ar y nos Wener, yn neuadd Pontyberem byddwn yn cystadlu ar y ddrama un act, sef cyfieithiad George Owen o ddrama Harry Glass, *A New Interest in Life*. Drama ddwys iawn yw hon sy'n codi cwestiynau moesol ond yn gadael i'r gynulleidfa eu hateb.

Un cais bychan cyn i mi orffen y llith yma. Os oes yna unrhyw un ohonoch chi â 'cocktail cabinet' nad ydych yn ei ddefnyddio (yn aml beth bynnag!), a fyddech yn barod i'w fenthyca i'r Gymdeithas ar gyfer un o'n dramâu os gwelwch yn dda. Gyda llaw, dim ond y cabinet, nid y cocktails, sydd ei angen arnom!

Gobeithio'n wir y gwelwn ni chi yn un o'r nosweithiau yn yr Eisteddfod. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth.

*Bob Roberts (Cadeirydd)*

Canol Y Ffordd
*yn cyflwyno*
**NOSON LAWEN**
ar ran
**Menter Taf Elái**
yn Theatr y Miwni, Pontypridd
Nod Fercher 26 Mehefin
am 7.30pm
Tocynnau ar gael o'r Miwni


# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG dan ofal B.D. Harries

## BYDDAI IOLO MORGANWG WEDI BOD YN FALCH O'R YSGOL

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn cael ei hyrwyddo'n dda gyda'r dimensiwn Cymreig i'r cwricwlwm ac i fywyd yr ysgol yn derbyn sylw cadarn a phriodol, oddi mewn i'r cwricwlwm ffurfiol, a thrwy holl weithgareddau allgyrsiol yr ysgol, meddai'r Arolygwyr a ymwelodd ag Ysgol Iolo Morganwg, Y Bontfaen ym Mro Morgannwg.

Cafodd yr Arolygwyr le i roi canmoliaeth benodol hefyd i safon cerdd yr ysgol. "Mae'r safonau mewn cerdd yn dda gyda'r ddarpariaeth yn gadarn ar draws holl linynnau'r pwnc ... Rhoddir bri mawr ar gerddoriaeth offerynnol yn yr ysgol, gyda cherddorfa'r ysgol yn perfformio amrywiaeth o gerddoriaeth gan amlygu lefel uchel o allu a safonau da". Nodwyd bod sgiliau canu'r plant yn cael eu datblygu'n effeithiol drwy'r ysgol mewn gwersi ffurfiol ac yn ystod ymarferion corau a phartïon wrth baratoi ar gyfer cyngherddau ac eisteddfodau.

Cafodd y dysgu yn y dosbarth ei ganmol gan yr Arolygwyr fel ei fod yn gadarn ac yn gyson foddhaol a bod nifer o agweddau da iddo. Roedd naw deg y cant o'r gwersi a arolygwyd yn adran y babanod yn foddhaol tra yn yr adran iau yr oedd wyth deg chwech y cant yn foddhaol neu'n dda.



*Bwrdd yr Orsedd a chôr yr ysgol ar achlysur dathlu daucanmlwyddiant cynnal yr Orsedd gyntaf ar dir Cymru ym Mro Morgannwg, Medi 1995*

Ceir amcanion clir parthed meithrin gwerthoedd megis cwrteisi, gofal a pharch at eraill, ac fe lwyddir i gyrraedd y nodau hyn yn dda. Amlygir gwerthoedd pendant gan y staff ac y mae'r rhain yn hybu ethos teuluol a chynhaliol yr ysgol. Cafodd yr Arolygwyr eu bodloni gan safon ymddygiad y plant: "Mae safonau ymddygiad yn gyffredinol dda drwy'r ysgol. Ceir disgwyliadau clir a chyson gan staff ynglŷn â safonau derbyniol o ymdygiad. Disgyblir yn effeithiol gan ddefnyddio strategaethau rheoli a disgyblu teg a chyson."

Tra bod y safonau yn foddhaol yn y rhan fwyaf o bynciau yn adran y babanod a'r adran iau nodwyd y gellid gwneud gwelliannau cyffredinol mewn dau bwnc, sef mewn gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg.

Cafodd gwaith y pennaeth, Alan Jones, ei ganmol: "Mae rôl y pennaeth yng ngweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol a'i arweiniad yn gadarn." Nodwyd hefyd fod y llywodraethwyr yn gefnogol ac yn ymddiddori'n bositif ym mywyd a holl weithgareddau'r ysgol. Nodwyd hefyd fod "yr ysgol yn darparu gwerth am arian". Dywedodd Mrs Cath Thomas, Cadeirydd y Corff Llywodraethol, "Yr ydym yn falch iawn o dderbyn yr adroddiad hwn. Mae'n amlwg bod Ysgol Iolo Morganwg yn un y gallwn fod yn falch ohoni.

"Mae lle gan y rhieni a'r llywodraethwyr i ddiolch i staff yr ysgol am y gofal cyson a'r gwaith caled sydd yn cael ei wneud ganddynt er mwyn y plant. Wrth gwrs bod yr adroddiad yn amlygu rhai gwendidau ac yr ydym yn barod yn ymdrechu i'w dileu.

"Un o amcanion yr ysgol yw gwneud yn siŵr bod pob un o'r plant yn rhugl yn y ddwy iaith. Mae'n amlwg ein bod yn llwyddiannus ac yr ydym yn falch iawn o hynny."

# NEWYDDION YR URDD

## TRIP YR URDD I 'LEGO LAND', WINDSOR

Mae'r Urdd yn trefnu trip ar gyfer disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 Ysgolion Cynradd Cymraeg De Morgannwg i 'Lego Land' ddydd Mercher, 7 Awst 1996. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Siân Jobbins, Swyddfa'r Urdd. Ffôn: 236201.

## CYNLLUN CHWARAE HAF YR URDD '96

Bydd yr Urdd yn cynnal Cynllun Chware Haf am bythefnos rhwng 22 Gorffennaf - 2 Awst yn Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd. Bydd y cynllun yn rhedeg rhwng 8.30 am - 3.30 pm ar gyfer disgyblion dosbarth derbyn a blynyddoedd 1, 2, 3 a 4. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i'r plant goginio, chwarae gemau parasiwt, chwarae ar y 2 gastell bownsi, gweithgareddau celf a chrefft, ymweliadau oddi wrth glown, jyglwyr a chonsurwyr a hefyd mynd ar drip i fferm 'Greenmeadow', trip i lan y môr a thrip i fferm 'Cefn Mabli'. Bydd y cynllun dan ofal staff profiadol (21+) sydd â chymwysterau dysgu a chymorth cyntaf a phrofiad helaeth o redeg cynlluniau chwarae. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Siân Jobbins: 236201.

## NOSON DEULUOL GYDA'R BRODYR GREGORY

Mae Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd wedi trefnu noson deuluol yng nghwmni'r Brodyr Gregory ac eraill nos Wener, 27 Medi yn Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd. Bydd y noson yn dechrau am 7.30pm ac mae croeso cynnes i bawb. Bydd bar ar gael yn ystod y nos.

## EISTEDDFOD BRO MAELOR

Hoffai'r Urdd yn Ne Morgannwg longyfarch yr isod am eu llwyddiant ym Mro Maelor.

**ADRAN CELF A CHREFFT**

Arddangoswyd gwaith pob un o'r canlynol yn y babell Celf a Chrefft:

**Kara Morse, Ysgol Treganna,**
Gwaith Creadigol dan 8 oed
**Uned Arbennig Ysgol Coed y Gof**
Gwaith 3D dan 12 oed
**Ioan Evans, Ysgol Pencae**
Pypedau dan 8 oed
**Rachel Bond, Ysgol Pencae**
Printiau Lliw 8-10 oed
**Stephen Bond, Ysgol Pencae**
Printiau lliw 10-12 oed
**Rhian Bowker, Ysgol Glantaf**
Ffotograffiaeth Du a Gwyn



**ENILLWYR LLWYFAN**




**Parti Dawns Bl. 10-13**
3ydd - Ysgol Gyfun Glantaf
**Deuawd Cerdd Dant 15-19**
3ydd - Nerys a Dafydd,
Ysgol Gyfun Glantaf
**Deuawd 15-19**
3ydd - Ase Bergler a Delyth Smith,
Coleg Iwerydd, Y Fro,
**Addysg Gorfforol - parau dan 12**
1af - Anna a Natalie, Ysgol Gynradd St. Joseph
**Medal Lenyddol y Dysgwyr**
3ydd - Liz Leeke, Ysgol Howell
**Prif Gyfansoddwr**
3ydd - Ceiri Torjussen, Aelod Unigol
**Cerddorfa/Band Pres/Band Chwythbrennau dan 25**
Ysgol Gyfun Fitzalan
**Côr S.A.T.B. Bl. 13 ac iau**
3ydd - Ysgol Gyfun Glantaf
**Parti Merched Bl. 7,8 a 9**
3ydd - Ysgol Gyfun Glantaf
**Ensemble Bl. 7,8 a 9**
2ail - Ysgol Gyfun Fitzalan
**Llefaru Unigol 12-15**
2ail Nerys Pollard, Ysgol Gyfun Glantaf
**Unawd Llinynnol 12-15**
2ail - Olivia Simove, Ysgol Gyfun Glantaf
**Parti Deulais Ysgol Gynradd**
2ail - Ysgol Gymraeg Coed y Gof
**Grŵp Dawnsio Disgo Bl. 7,8 a 9**
Grŵp Catrine, Ysgol Gyfun Glantaf
**Llefaru Unigol i Ddysgwyr 12-15**
2ail - Elizabeth Toye, Ysgol Howell
**Cyflwyniad Dramatig dan 12**
1af - Ysgol Gynradd Pencae
**Grŵp Llefaru dan 12**
2ail - Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
**Unawd Llinynnol dan 12**
3ydd - Selyf Shapey, Ysgol Gynradd Y Wern
**Deuawd dan 12**
2ail - Gwenllian a Hannah,
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
**Llefaru Unigol 10-12**
1af - Siân Elen Williams, Ysgol Gymraeg Bro Eirwg



*Siân Elen Williams*

# YSGOL GLANTAF

## CYSTADLEUAETH MENTER YR IFANC

Yn ystod diwrnod gwobrwyo Menter yr Ifanc yn Neuadd y Ddinas fe enillodd Rhodri Barker o Ysgol Gyfun Glantaf wobr am ymateb orau i gwestiynau gan y beirniaid. Cafodd Rhodri wobr o £40 ac fe fydd yn cael y cyfle i gael ei ddewis i fynd i'r Unol Daleithiau i Gynhadledd yr 'Young Achievers'. Rhodri oedd Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni 'Ffabtastic' sydd wedi bod yn cynhyrchu a gwerthu clustogau yn ystod y flwyddyn fel rhan o fwriad Menter yr Ifanc i roi cyfle i ddisgyblion ysgol redeg eu cwmni eu hunain.

## HALEN YN Y GWAED

*Yn ystod gwyliau'r Pasg cafodd pedwar ar ddeg o ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgol Glantaf y profiad o hwylio ar gwch o Tilbury i Ostend. Mr Gareth Norton oedd yn gyfrifol am drefnu'r daith. Dyma Sara Roberts i adrodd yr hanes:*

Wrth i ni edrych i lawr ar y cwch yn nociau Tilbury ar ôl teithio yn oriau mân y bore o Gaerdydd, meddyliom sut yr oedd pedwar ar ddeg ohonom, 'Barti Ddu' Norton a phum aelod o'r criw yn mynd i ffitio arno. Ond nid oedd yn hir cyn i ni wybod! Roedd yr holl fynciau yn yr un ystafell ac mi roedden nhw wedi eu gosod un ar ben y llall fel sardîns mewn tin! Ond fel y gallwch ddychmygu roedd hyn at ddant pawb!



*Rhai'r plant ar y cwch*

Yn fuan cychwynnodd y daith. Hwyliom i lawr afon Tafwys tuag at y môr agored. Cawsom ein rhoi i mewn i dri grŵp gwylio *(watches)*. Cawsom bedair awr o ddyletswydd yn ystod y dydd a thair awr yn y nos a chwe awr i ffwrdd. I mi y dasg anoddaf oedd codi ar ôl treulio oriau mewn sach gysgu dwym ac yna dringo i mewn i 'oil skins' oer yn barod i feistroli tonnau'r nos. Roedd y nos yn hir ac yn ddistaw heblaw am sŵn y tonnau yn bwrw yn erbyn ochrau'r llong.

Yn ystod y dydd roedd y môr yn ymddangos yn enfawr ac yn lledu at y gorwel. Yr unig synau i'w clywed oedd gwichian y gwylanod ac ambell "Buoy on starboard side" gan aelod o'r criw.

Nid wyf yn hoff o goginio ac roedd y syniad o goginio i ddau ar hugain o bobl yn codi ofn. Cafodd ei wneud yn anoddach oherwydd bod y cwch yn teithio ar gyflymder o ddeg 'knot' ar ongl o chwe deg gradd. Yn waeth na hynny y pryd cyntaf i mi ei baratoi oedd cyri ac nid wyf yn hoff o gyri! Er hynny, cawsom lawer o hwyl a nifer o sgyrsiau diddorol wrth helpu'n gilydd i baratoi'r bwyd a golchi'r llestri.

Erbyn i ni gyrraedd Gwlad Belg, roedd pawb yn ffrindiau da ac yn barod am gawod gynnes yn yr harbwr ar ôl tri diwrnod o ymolchi mewn basn o ddŵr oer. Gwnaeth pawb fwynhau y diwrnod, yn enwedig pan wnaethom logi beic. Gwnaeth tri ar ddeg ohonom ffitio ar feic i bedwar. Rwy'n siŵr nad oedd traffig Gwlad Belg wedi gweld dim byd tebyg o'r blaen!

Roedd y daith adre yn ardderchog. Roedd y cwch yn teithio ar gyflymder o dri 'knot' ar ddeg ar ongl o bedwar deg pum gradd. Roedd y profiad o dorri drwy'r tonnau yn fythgofiadwy, er i rai ei gofio am resymau eraill fel salwch môr!

Cyrhaeddom adre i dir sych ar ôl taith ddiddorol a hapus. Hoffai pawb ddiolch i Mr Gareth Norton am ei holl waith yn trefnu'r daith ac am ofalu amdanom. Pryd gawn ni fynd eto?!

*Sara Roberts 10G*

## CYFANSODDWYR GLANTAF

Gwefr i bob cyfansoddwr yw clywed ei gyfansoddiad ei hun yn cael ei berfformio am y tro cyntaf. Daeth y wefr hon i ran deg cyfansoddwr ifanc o Ysgol Glantaf eleni yng Nghyngerdd Ffarwel Blwyddyn 13. Mae'n draddodiad bellach i gynnal y gyngerdd hon yn flynyddol er mwyn rhoi cyfle i blant, rhieni a ffrindiau'r ysgol glywed ffrwyth llafur disgyblion lefel A Adran Gerdd yr ysgol.

Clywyd amrywiaeth o weithiau offerynnol a lleisiol. Cafwyd dau unawd piano, 'Fantasia' gan Bethan Clement, a 'Thema Amrywiadau' gan Gareth Hughes. 'Cyfarch yr Haf' oedd cyfansoddiad Catrin Williams ar gyfer y delyn, a threfniant o 'Sound of Silence' ar gyfer y ffliwt a gafwyd gan Rhian Myhre. Chwaraewyd y darn gan Rhian, Rhiannon a Branwen a nhw hefyd a fu'n perfformio gwaith gan Dafydd Curry. Unawd cello 'Romance' oedd cyfansoddiad Lisa Thomas a bu Dafydd James yn cyfeilio iddi ar y piano. Gethin Jones oedd yr unawdydd ar y ffidil yn perfformio 'Chansons du Jour' gan Iwan Evans. Bu'r pedwarawd llinynnol - Gethin, Olivia, Prys a Lisa yn chwarae gwaith gan Branwen Gwyn. Miss Delyth Medi Jones a gafodd y pleser o ganu dwy gân a gyfansoddwyd gan ddau o'i disgyblion - 'Y Lloer' gan Rhodri Mears a 'Soleil Mort' gan Lisa-Mair Williams.

Yn ogystal â'r deg *première* yma cafwyd eitemau gan gôr yr Ysgol Uchaf, unawd gan Iolo Evans, deuawd gan Siân Harries a Sarah Stockford a phedwarawd gan Branwen, Bethan, Catrin a Llinos. Cafwyd hefyd eitem gan y grŵp pres - Manon Jones, Rhian Taylor, Rhian Samuel, Dafydd James ac Iwan Evans.

Enillodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 11 glod arbennig am eu perfformiadau yn eu harholiadau ymarferol TGAU a chawsant gyfle i arddangos eu gallu yn ystod y gyngerdd. Chwaraewyd y tiwba gan Bryn Thomas, yr euphonium gan Dean Cosslett a'r cornet gan Andrew Smith.


Roedd y gyngerdd hon yn glo hyfryd a chlodwiw ar ddwy flynedd o waith caled ar ran y disgyblion, ac yn dyst i arweiniad cadarn ac ysbrydoledig Mr Alun Guy a Miss Delyth Medi Jones.



*Dosbarth Cerdd Blwyddyn 13, Ysgol Gyfun Glantaf 1996*


# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## CAMP I'R DDAU RYW



Os ewch chi lawr i gaeau chwarae Harlequins Caerdydd ar nos Lun a nos Iau yn ystod mis Mai a Mehefin, fe welwch gannoedd o bobl yn chwarae rygbi - nid y rygbi a welir yn arferol yno yn ystod tymor y gaeaf, ond rygbi cyffwrdd, hynny yw, heb daclo. Cyflwynwyd y gêm i'r De gan David Swaine ar ddiwedd yr wythdegau, ac erbyn heddiw mae 'na gynghrair yn Abertawe a'r Barri yn ogystal â'r ddwy noson yng Nghaerdydd.

Mae 'na gynghrair i ddynion, menywod ac i dimau cymysg, ac mae'r safon yn gwahaniaethu'n fawr. Yn amlwg, mae rhai yn gystadleuol iawn tra bo eraill yno am y mwynhad yn unig. Braf gweld chwaraewyr rhyngwladol fel Richie Collins, Simon Hill a Paul John yn defnyddio eu sgiliau mewn awyrgylch o hwyl a sbri, ond heb golli yr elfen gystadleuol sy'n mynd law yn llaw â gemau tîm. Ac os oeddech chi'n meddwl mai dim ond hyfforddi mae ein hen arwyr fel Terry Holmes yn ei wneud heddiw, dewch i weld drosoch eich hunain, mae'r doniau'n dal yno! Ond nid oes cap i Gymru gan bawb yno, yn wir mae nifer yn chwarae sydd erioed wedi gafael mewn pêl rygbi o'r blaen.



Bob blwyddyn mae tîm o gynrychiolwyr yn chwarae mewn twrnameint bach rhyngwladol yn Llundain, ac ar y cyfan mae Cymru wedi cael llwyddiant yn erbyn gwledydd sydd â thraddodiad o chwarae "bach". Er enghraifft, enillodd y tîm yn erbyn Awstralia a chael gêm gyfartal yn erbyn Seland Newydd ddwy flynedd yn ôl. Mae Cynghrair 1996 wedi dechrau eisoes ond mae croeso i unrhyw un ddod i fwynhau'r gêm - dewch yn llu!

*Helen John*

## Y BÊL HIRGRON

Llawenhau a galaru - yr un pryd. Gallwn ni oll fod yn llon wrth edrych dros y tymor diwethaf oherwydd i safon y chwarae godi'n raddol ymysg clybiau Adran Gyntaf y Cynghrair - a'r Adrannau eraill hefyd. Ni allesid dychmygu gwell diwedd i'r tymor nag a gafwyd ar 14 Mai; o achos Cwpan Clybiau Ewrop a'r tywydd gaeafol, estynnwyd y tymor ar ôl Rownd Olaf y Cwpan, a'r nos Fawrth honno chwaraewyd y ddwy ornest yr oedd y Bencampwriaeth yn dibynnu ar eu canlyniadau nhw. Chwi wyddoch beth a ddigwyddodd - bu dathlu ac ysgwyd caniau cwrw ar Y Nol, a rhincian dannedd ac ysgwyd pennau ar faes Caerdydd. Llongyfarchiadau i ŵyr y Crysau Duon a enillodd y llawryf am yr ail dro (1991 oedd y tro cyntaf); ni welir yr un tlws yng nghlwb Caerdydd, ond cyrhaeddasan nhw Rownd Derfynol Cwpan Ewrop cyn colli yn erbyn Toulouse.




Ni wyddys beth yn union a ddigwydd y tymor nesaf, ond nid cwrw Heinecen a yfir gan enillwyr y Cynghrair, beth bynnag, gan i nawdd y rheiny ddod i ben y tymor hwn.

Yn ddiau cyfrannodd pwyntiau bonws at safon y chwarae, er nad yw pawb yn cyd-weld â'r modd o'u rhoi. Clywais farn un o swyddogion Castell-nedd, ac mae hi'n werth ei hystyried - ni ddylai'r clwb sy'n colli gael pwyntiau bonws. Curodd Caerdydd Abertyleri eleni o 95 pwynt i 25 (pymtheg cais i bump) a olygodd i Gaerdydd ennill tri phwynt bonws a'r gwrthwynebwyr ddau. Ni welais mo'r ornest, ond sut y gallai Abertyleri sgorio pum cais, tybed? Rhaid cadw pwyntiau bonws yn sicr, ond bydd angen diwygio'r modd o'u hennill.

O ie, pam y mae galaru? Mae rhai o'n chwaraewyr gorau - hanerwyr Caerdydd a chloeon Castell-nedd - eisoes wedi ymadael â'r wlad i chwarae dros glybiau yn Llundain, ac er y byddant ar gael i chwarae dros eu gwlad, rhaid gwneud popeth yn ein gallu i rwystro rhagor rhag eu dilyn. Mae hi'n niweidiol i'n cynghrair ac yn ddinistriol i ysbryd y tîm cenedlaethol. "Lloegr yn well o'n llygru ni."

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen




## Shwmae eto!

Mae dau wedi cael yr ateb cywir i gystadleuaeth mis Ebrill. Y cwestiwn oedd beth yw'r **priod-ddull** Cymraeg am 'People in glass houses shouldn't throw stones'. Mae dau ateb gwahanol wedi dod ataf i ac rydw i'n **fodlon** derbyn y ddau, **sef**;

'Ddylai pobl **droednoeth** ddim **hau drain**'
a
'Gofala fod **carreg dy ddrws** dy hun yn lân'

Yr enillwyr yw Cris Rolant a Graham Smith, y ddau o ddosbarth Safon A, Coleg Glan Hafren. Llongyfarchiadau!!

**Wrth sôn am** Safon A, gaf fi **ddymuno'n dda** i bob un sydd yn **sefyll arholiad** Defnyddio'r Gymraeg neu Ddefnyddio'r Gymraeg Uwch eleni. Pob lwc!

**GEIRFA**
**Priod-ddull** -idiom, saying
**Bodlon** - willing, satisfied
**Sef** - that is (i.e.)
**Troednoeth** - bare footed
**Hau drain** - to sow thorns
**Carreg ddrws** - door step
**Wrth sôn am** - speaking of
**Dymuno'n dda** - to wish well
**Sefyll arholiad** - to sit an examination

## YSGOLION UNDYDD CAERDYDD A'R FRO

Cofiwch am y gyfres newydd o Ysgolion Undydd yn ein hardal. Edrychwch yn y Dyddiadur o Ddigwyddiadau ar y tudalen hwn am fanylion yr ysgol undydd yn Ysgol yr Eglwys Newydd (*Whitchurch*). Dewch yn llu!

Dyma gystadleuaeth arall gyda'r un thema *(on the same theme)* â'r mis diwethaf, sef priod-ddulliau *(idioms)* Cymraeg.
Byddwn yn cyhoeddi enillwyr cystadleuaeth mis Mai yn y rhifyn nesaf.

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Y tro hwn ydych chi'n gwybod (neu ydych chi'n gallu holi eich tiwtor) beth yw

**'Falling down drunk'**

yn Gymraeg? Does dim eisiau cyfieithiad gair am air.
Mae **Cell Caerdydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,** yn cynnig crys T neu fyg y Gymdeithas i'r tri pherson cyntaf gyda'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf nawr gyda'ch atebion. Y cyfeiriad yw Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, CAERDYDD CF2 3AD

## YN EISIAU - CYFAILL POST

Mae Mrs Mair Rosser, sy'n byw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, yn chwilio am Gyfaill Post i ohebu â hi yn y Gymraeg. Yn wreiddiol o Rydaman, ac yn Gymraes iaith gyntaf, dydy Mair ddim wedi cael siarad llawer o Gymraeg ers symud i Gaerdydd ac mae hi'n teimlo'r golled. Dylai unrhyw un sy eisiau gohebu â hi gysylltu â Gill Stephen, Tiwtor-Drefnydd Cymraeg i Oedolion, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, CAERDYDD CF2 3AD

**Dyma gyfle euraidd i ddysgwyr sy eisiau ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig.**

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - DE MORGANNWG A'R FRO

| | |
|---|---|
| **8 Mehefin 1996**<br>9.45 -1.15pm | Ysgol Undydd Palmerstone<br>Canolfan Palmerstone, Y Barri. Crèche ar gael.<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **15 Mehefin 1996** | Ysgol Undydd, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd<br>Dosbarthiadau ar gyfer pob safon. Crèche.<br>Ffoniwch Gill Stephen 01222 481280 est 236 |
| **Pob nos Iau**<br>yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener**<br>9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob bore Gwener**<br>9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Ysgol Victoria, Penarth<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener**<br>Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn**<br>10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** | Clwb Sadwrn ACEN<br>Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Unwaith y mis** | Clwb Siarad, Canolfan yr Urdd, Caerdydd<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau, Ffoniwch Gill 481280 est 236 (Trefnwyd gan Gonsortiwm De Morgannwg) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 481280 EST. 236**

## HYFFORDDI AR GYFER Y DYFODOL

# PRENTISIAETHAU MODERN

Mae hyfforddiant o'r radd flaenaf, cyflogau wythnosol a phrofiad gwaith i gyd yn rhan o'r profiad *Prentisiaeth Modern* llwyddiannus.

## BETH FYDD YN EI ROI I CHI?

- Hyfforddiant o'r radd flaenaf o level 3 NVQ (sy'n gydradd â 2 lefel A)
- Hyfforddiant mewn swydd yn ogystal â hyfforddiant mewn coleg, ac hyd at 3 blynedd
- Tâl wythnosol/cyflog
- Sgiliau newydd defnyddiol a hyblyg
- Ymarfer hanfodol a phrofiad diwydiannol

## BETH BYNNAG YW'R DIWYDIANT

Os ydych chi eisiau bod yn blymar neu'n argraffwr, cogydd neu fecanic car, gallai *Prentisiaethau Modern* fod ar eich cyfer chi. Dyna pam mae *Prentisiaethau Modern* ar gael yn lleol yn nawr ym mhob diwydiant, fwy neu lai.

## MYNNWCH Y FFEITHIAU

**FFONIWCH**
*Training & Enterprise*
**am ddim ar 0800 295555**

Training & Enterprise

**Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd**

**CYNORTHWY-YDD**

Mae'r Cylch uchod yn chwilio am gynorthwy-ydd ar gyfer mis Medi. Am fanylion pellach, cysylltwch â Janet Wilde ar 01222 613513.

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN BRO MORGANNWG**

Mae arnom arweinyddion erbyn mis Medi yn ardaloedd Llandŵ a Dinas Powys. Gellir cael ffurflenni oddi wrth yr Ysgrifennydd Sir, Bryneglwys, Monknash, Bro Morgannwg. CF71 7QQ. Ceisiadau erbyn Mehefin 30, '96.

# STEVE EAVES
# A RHAI POBL
## y canol llonydd distaw

**CD a CASET**

**106 heol dwyrain y bontfaen**
**caerdydd**

**ANKST 067** **ffôn 01222 235453**

## SWYDDOG GWYBODAETH A'R WASG DWYIEITHOG

Caerdydd Cyflog £15 - £18k pro rata (*dyfarniad tâl i'w benderfynu*)

Y Gymdeithas Cynllunio Teuluoedd yw'r mudiad gwirfoddoli mwyaf blaenllaw yn y Deyrnas Unedig sydd yn hyrwyddo iechyd rhywiol a chynllunio teuluoedd. Rydym yn chwilio am Swyddog Gwybodaeth a'r Wasg Dwyieithog i gyflenwi'r wasg a'r cyfryngau Cymreig gan wybodaeth a sylwadau am unrhyw bwnc o fewn maes y Gymdeithas yn feunyddiol. Bydd hyn yn cynnwys cysylltiad clòs at adran y wasg yn ein swyddfa yn Llundain. Bydd deilliad y swydd hefyd yn ymateb i'n ymholiadau cyffredinol am wybodaeth gan y cyhoedd. I gychwyn, cynigir cytundeb blwyddyn, gyda'r bwriad o gynnig dwy flynedd pellach.

*Y Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau: 17 Mehefin*
*Cynhelir cyfweliadau: 27 Mehefin*

*Am wybodaeth bellach a ffurflen gais ffoniwch 01222 644034*

CYMDEITHAS CYNLLUNIO TEULUOEDD
FPA
FAMILY PLANNING ASSOCIATION

*Yn hyrwyddo cynllunio teuluoedd a iechyd rhywiol*

Elusen Gofrestredig Rhif 250187 Mae'r FPA yn gweithio tuag at Gyfle Cyfartal.

# Dramâu Saunders Lewis

**Y Casgliad Cyflawn**
**Cyfrol I**

**Golygwyd gan**
**Ioan M. Williams**

Dros 700 tudalen
clawr caled £35.00

'Dyma yn ddiau yr astudiaeth fanylaf o theatr Saunders Lewis hyd yn hyn, a'r cyflwyniad mwyaf cynhwysfawr a gafwyd erioed i waith unrhyw lenor Cymraeg diweddar. Llwyddodd y golygydd i osod pob drama yng nghyd-destun datblygiad deallusol ei hawdur. Nodwyd y dylanwadau arno ar wahanol adegau, a'r hyn a'i hysbrydolodd i ysgrifennu pob drama, a llwyddir yn ogystal i ddangos perthynas gweithiau â'u cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol.'

***Dr John Rowlands***

***Gwasg Prifysgol Cymru***
***6 Stryd Gwennyth, Cathays,***
***Caerdydd CF2 4YD***

**☎ 01222-231919** ***Ffacs*** **01222-230908**
***Llythyru-e*** **press@wales.ac.uk**



## Gramadeg y Gymraeg

Cyfrol anhepgor arall i fynd ar y silff gyda *Geiriadur yr Academi*. Dyma'r dadansoddiad llawnaf a thrylwyraf a fu erioed o'r Gymraeg ar gyfer myfyrwyr, ac i bawb sy'n ymddiddori yn yr iaith.

**Dros 800 tudalen**
**clawr papur £14.99**
**clawr caled £25.00**




***Gwasg Prifysgol Cymru***
***6 Stryd Gwennyth, Cathays,***
***Caerdydd CF2 4YD***

**☎ 01222-231919** ***Ffacs*** **01222-230908**
***Llythyru-e*** **press@wales.ac.uk**



Adran y Gymraeg
Prifysgol Cymru Caerdydd

# Y Gymraeg yn y Brifddinas

Manteisiwch ar y cyfle i astudio'r Gymraeg, ei llên, a'i diwylliant, yn eu holl amrywiaeth cyfoethog - a hynny mewn adran flaengar, lewyrchus a chartrefol, ac iddi safonau academaidd o'r radd flaenaf.

Ceir rhychwant eang o gyrsiau, gan gynnwys :

- rhyddiaith ddiweddar
- tafodieitheg
- astudiaethau merched
- llên y Diwygiad Mawr
- y ddrama
- astudiaethau gwerin
- enwau lleoedd
- llên y ddinas
- cynllunio ieithyddol
- Dafydd ap Gwilym
- sgriptio ar gyfer y teledu
- crefft y cyfarwydd

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Swyddog Derbyn :
Dr Jerry Hunter
Adran y Gymraeg
Prifysgol Cymru Caerdydd
Blwch SP 910
CAERDYDD CF1 3XW
Ffôn : 01222-874843
Ffacs : 01222-874604
E-bost: SCYEP@cf.ac.uk

CAERDYDD
*Yn rhagori mewn ymchwil a dysgu*

**Nodyn i Syrffwyr !**
Cewch wybodaeth am yr Adran a'i gweithgareddau ar y We Fyd-Eang.
Ein cyfeiriad ar y We yw :
http://www.cf.ac.uk/uwcc/cymraeg/index.html



# Newydd gan Newydd Sain

**AR LOG VI** allan yn fuan

**CÂN CELT - Dafydd Iwan ar CD** gyda 4 cân newydd

**GWYN HUGHES JONES** y tenor gwych

**MÔR O GARIAD** - caneuon rhamantus

**CANEUON TECWYN Y TRACTOR**
gyda **Bryn Fôn**

**VERNON** ffefrynnau Vernon Maher

**CRAI TECNO** cerddoriaeth ddawns

**DAN HWYL WEN** pasiant Gŵyl Fai Pwllheli

